



Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, CCEA, City & Guilds, OCR a Pearson

Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Hysbysiad Preifatrwydd

Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol

Bydd eich data personol yn cael eu prosesu gan y cyrff dyfarnu CGC yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998 a'r *Cod Ymarfer* a gyhoeddwyd gan y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Bydd cyrff dyfarnu bob amser yn dilyn y dulliau gweinyddol canlynol wrth brosesu a chyfnewid data personol ymgeiswyr:

1. Bydd corff dyfarnu yn casglu data personol yn ymwneud ag enw(au), dyddiad geni, rhyw, dangosydd ymgeisydd unigryw (UCI) a rhif dysgwr unigryw (ULN) ymgeisydd unigol at bwrpas arholi a dyfarnu cymwysterau. Mewn rhai achosion, bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu i gefnogi ceisiadau am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol a/neu ystyriaeth arbennig. Gall hyn gynnwys data personol sensitif yn ymwneud ag iechyd. Bydd canlyniadau arholiadau ac asesiadau mae'r ymgeisydd perthynol yn eu cwblhau yn ategu data personol o'r fath.
2. Dim ond gan ganolfannau arholiadau cofrestredig y bydd data personol ymgeisydd yn cael eu casglu yng nghyd-destun cofrestriadau arholiadau a/neu geisiadau am ardystio.
3. Ni fydd y corff dyfarnu yn defnyddio'r data hyn ar gyfer unrhyw beth heblaw gweinyddu'r broses arholiadau, cynnal asesiadau neu ardystio ceisiadau am ganlyniadau.
4. Bydd corff dyfarnu yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n rhan o waith ymgeiswyr er mwyn marcio, cyhoeddi canlyniadau arholiadau a darparu gwasanaethau ar ôl y canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr. Bydd canlyniadau arholiadau yn cael eu cadw am gyfnod lleiaf o ddeugain (40) mlynedd.

Er mwyn gallu gwneud hyn, mae'n bosibl y bydd corff dyfarnu yn trosglwyddo rhywfaint o wybodaeth personol i drydydd partïon fel arholwyr sydd, mewn rhai achosion, yn byw y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

5. Mae'n bosibl y bydd gofyn i gyrff dyfarnu ddarparu data personol ymgeisydd i asiantaethau addysgol fel yr AA, LIC, DENI, yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau, Ofqual, HESA, UCAS, Awdurdodau Lleol, EFA a'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS). Yn ychwanegol, mae'n bosibl y bydd data personol ymgeiswyr yn cael eu cyflenwi i'w cynnwys mewn cofnod cymwysterau canolog a gymeradwywyd gan y cyrff dyfarnu at bwrpasau ystadegol a datblygu polisïau.
6. Bydd yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn defnyddio rhywfaint o'r wybodaeth mae ymgeiswyr yn ei darparu i gyflawni swyddogaethau statudol, cyhoeddi/gwirio Rhif Dysgwr Unigryw (ULN) ymgeisydd a diweddarau/gwirio Cofnod Dysgu Personol ymgeisydd.

Mae'n bosibl y bydd yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn rhannu ULN a Chofnod Dysgu Personol ymgeisydd â sefydliadau eraill yn ymwneud ag addysg, fel gwasanaeth gyrfaedd, ysgol neu goleg ymgeisydd, Adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus â chyfrifoldeb dros addysg. Mae manylion pellach ynglŷn â sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i phrosesu i'w cael yn:

<http://www.learningrecordsservice.org.uk/>

7. Mae'n rhaid i gyrff dyfarnu gadarnhau pa ddata personol sydd ganddynt, at ba bwrpas mae'r data ganddyn nhw, i bwy maen nhw/y byddan nhw'n gallu datgelu'r data, a datgelu'r wybodaeth sydd ganddyn nhw am ddeiliaid data, e.e. yr ymgeiswyr) o fewn 40 diwrnod i dderbyn cais ffurfiol am ddatgeliad, ar ôl cymhwyso unrhyw eithriadau perthnasol dan Ddeddf Gwarchod Data 1998.

Dylai ymgeiswyr gyflwyno cais i'r swyddog gwarchod data yn y corff dyfarnu priodol. Gall cyrrff dyfarnu godi ffi am y gwasanaeth hwn.

8. Os nad ydych chi'n 16 oed eto, mae'n bosibl y byddwch chi eisïau trafod yr Hysbysiad Preifatrwydd â'ch rhiant neu warcheidwad cyfreithiol yn gyntaf.

Y canlynol yw'r 'rheolyddion data' yn ôl Deddf Gwarchod Data 1998: cyrff dyfarnu, ysgolion, yr Adran Addysg (AA), Llywodraeth Cymru (LIG), Adran Addysg Gogledd Iwerddon (DENI), Awdurdodau Lleol, Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), Ofsted a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau (SFA). Y cyrrff hyn sy'n gyfrifol am benderfynu pwrpas(au) prosesu 'data personol' (gwybodaeth am unigolion byw y mae'n bosibl eu hadnabod o'r data) a sut mae'r prosesu hynny'n digwydd.

Mae'n ofynnol i reolyddion data ddarparu manylion ar gyfer deiliaid y data (yr unigolion y mae'r data personol yn cyfeirio atynt) yn nodi pwy ydyn nhw, pwrpasau prosesu'r data personol, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i sicrhau bod data personol yn cael eu prosesu mewn ffordd ddiogel a manwl gywir, ynghyd ag unrhyw drydydd partïon maen nhw'n gallu trosglwyddo'r data iddyn nhw.